Mae rhagor o wybodaeth amdanom ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
[Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru | LLYW.CYMRU]

# APÊL CANIATÂD ADEILAD RHESTREDIG NEU GANIATÂD ARDAL GADWRAETH

Os bydd arnoch angen y ddogfen hon mewn print bras, ar dâp sain, mewn Braille neu mewn iaith arall, cysylltwch â'n Llinell Gymorth ar 0303 444 5940. ***I'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon yn gywir, cyfeiriwch at ein canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru.***

**Defnyddiwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob apêl**

**RHYBUDD:** **Rhaid i'ch apêl gyrraedd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru o fewn 6 mis o ddyddiad hysbysiad penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.** *(NODER: Os na dderbyniwn unrhyw un o'r "Dogfennau ategol hanfodol" a restrwyd yn Adran L o fewn cyfnod yr apêl, ni dderbynnir yr apêl)*

**PRINTIWCH YN GLIR MEWN PRIFLYTHRENNAU GAN DDEFNYDDIO INC DU**

**A. Apelydd – <u>Rhaid</u>** i enw'r unigolyn (unigolion) sy'n gwneud yr apêl ymddangos fel ymgeisydd ar y ffurflen cais am ganiatâd.

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |

**B. Asiant (os oes un) ar gyfer yr apêl**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Enw'r Sefydliad (os yw'n berthnasol) | |
| Cyfeirnod | |

## C. Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)

| | |
|---|---|
| Enw'r ACLl | |

| | |
|---|---|
| Rhif cyfeirnod cais yr ACLl | |

| | | |
|---|---|---|
| Ffurflen Caniatâd Adeilad Rhestredig/ Ffurflen Caniatâd Ardal Gadwraeth | Dyddiedig | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad hysbysiad Penderfyniad yr ACLl (os yw wedi'i roi) | |

## D. Cyfeiriad safle'r apêl

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |

| | OES* | NAC OES |
|---|---|---|
| A oes unrhyw faterion iechyd a diogelwch ar y safle, neu gerllaw'r safle y byddai angen i'r Arolygydd eu hystyried wrth ymweld â'r safle?<br>***Os oes, esboniwch yn eich datganiad achos (adran H)*** | | |

| | OEDD/ YDY* | NAC OEDD/ NAC YDY |
|---|---|---|
| A oedd yr Arolygydd yn gallu gweld y rhannau perthnasol o safle'r apêl yn ddigonol i farnu'r cynnig o dir cyhoeddus? | | |

## E. Gwybodaeth Ategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Os yw'r adeilad wedi'i restru, nodwch radd yr adeilad | Gradd I | Gradd II* | Gradd II |
| | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. | A oes grant wedi'i roi o dan adrannau 3A neu 4 o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953? | **Oes** | **Nac oes** |
| 3. | A yw'r apêl yn ymwneud â chais ar gyfer Caniatâd Ardal Gadwraeth? | | |

## F. Disgrifiad o'r datblygiad

| |
|---|
| Nodwch fanylion y datblygiad arfaethedig. Fel arfer dylid cymryd hwn o'r ffurflen cais am ganiatâd, ond os diwygiwyd y cais tra'r oedd gyda'r awdurdod cynllunio lleol i'w ystyried, gallwch roi disgrifiad o'r cynllun diwygiedig. Amgaewch gopi o gytundeb yr ACLl i'r newid. |
| |

## F. Disgrifiad o'r datblygiad (parhad)

| | |
|---|---|
| Maint safle cyfan yr apêl (mewn hectarau) | |

| | |
|---|---|
| Arwynebedd llawr y datblygiad arfaethedig (mewn metrau sgwâr) | |

| | ***Ydy/ Ydw*** | ***Nac ydy/ Nac ydw*** |
|---|---|---|
| A yw'r disgrifiad o'r gwaith wedi newid o hynny a nodwyd ar y ffurflen gais? | | |
| A yw llifogydd yn broblem? | | |
| A yw safle'r apêl mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol? | | |
| A yw'r safle mewn Ardal Gadwraeth? | | |
| A yw'r safle o fewn llain las/lletem las? | | |
| A ydych chi'n bwriadu cyflwyno rhwymedigaeth gynllunio (cytundeb adran 106 neu ymgymeriad unochrog) gyda'r apêl hon? | | |

## G. Rhesymau am yr apêl

| | **Mae'r apêl hon yn erbyn penderfyniad yr ACLl i:** | ☑ |
|---|---|---|
| 1. | Gwrthod caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y datblygiad a ddisgrifir yn adran F | |
| | Gwrthod caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer y datblygiad a ddisgrifir yn adran F | |
| 2. | Rhoi caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer y datblygiad yn amodol ar amodau rydych chi'n eu gwrthwynebu. | |
| | Rhoi Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer y datblygiad yn amodol ar amodau rydych chi'n eu gwrthwynebu. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 3. | Gwrthod amrywio amod(au) mewn caniatâd Ardal Gadwraeth wedi'i roi'n flaenorol | |
| | Gwrthod amrywio amod(au) mewn caniatâd adeilad rhestredig wedi'i roi'n flaenorol | |
| 4. | Gwrthod dileu amod(au) mewn caniatâd adeilad rhestredig wedi'i roi'n flaenorol | |
| | Gwrthod dileu amod(au) mewn caniatâd ardal gadwraeth wedi'i roi'n flaenorol | |
| **NEU** | | |
| 5. | *Methiant yr ACLl i roi ei benderfyniad o fewn y cyfnod priodol (8 wythnos fel arfer) ar gais am ganiatâd adeilad rhestredig.* | |
| | *Methiant yr ACLl i roi ei benderfyniad o fewn y cyfnod priodol (8 wythnos fel arfer) ar gais am ganiatâd ardal gadwraeth.* | |

## H. Datganiad Achos Llawn

Hwn yw eich **unig** gyfle i gyflwyno'ch dadl mewn cysylltiad â'r rheswm am yr apêl. Felly, darparwch eich datganiad achos **LLAWN**. I wneud hyn, mae angen i chi fynd drwy'r rhesymau am y penderfyniad (os yw wedi'i ddarparu), ac esbonio pam rydych yn anghytuno. Dim ond y rhesymau ym mhenderfyniad yr ACLl a'r rhesymau a roddwyd gerbron gennych chi yn y cam gwneud cais ddylid eu cynnwys ar eich ffurflen apêl. Ni ddylech gyflwyno unrhyw resymau newydd am yr apêl. Cyfeiriwch at ein Canllaw Gweithdrefnol ar gyfer Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

*Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen*

**I. Gweithdrefn (gweler y canllaw am ragor o wybodaeth)**

Gellir ystyried apeliadau y delir â nhw o dan Rhan 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017 ar sail gweithdrefn sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad, ymchwiliad neu achosion cyfunol. Yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2017 rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud penderfyniad ynglŷn â'r weithdrefn. Felly, byddwn yn ystyried eich barn isod wrth bennu'r weithdrefn. Os rhoddir rhesymau annigonol dros wrandawiad neu ymchwiliad, gallwn fabwysiadu'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

***Ticiwch un blwch yn unig***

| | |
|---|---|
| Rwyf o'r farn fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol. | |
| Nid wyf o'r farn fod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn briodol am y rhesymau a roddir yn y blwch isod. Rwy'n derbyn mai mater i ddisgresiwn yr Arolygiaeth ydyw o ran p'un ai gwrandawiad, ymchwiliad neu gyfuniad o'r ddau a gynhelir. | |

| **Os ydych yn teimlo bod angen gwrandawiad neu ymchwiliad, rhowch eich rhesymau llawn isod, gan gynnwys nifer debygol y diwrnodau y teimlwch y bydd y digwyddiad yn para, a faint o dystion y bwriadwch eu galw.** |
|---|
| |

## J. Cais am ddyfarnu costau (gweler y canllaw am ragor o wybodaeth)

| | YDW | NAC YDW |
|---|---|---|
| **A ydych chi’n bwriadu cyflwyno cais am gostau gyda’r apêl hon?**<br>*Os ydw, rhaid ei gyflwyno isod* | | |

## K. Manylion Perchenogaeth Safle'r Apêl

**Mae angen i ni wybod pwy sy'n berchen ar safle'r apêl. Os nad chi sy'n berchen ar safle'r apêl neu os ydych chi'n berchen ar ran ohono'n unig, mae angen i ni wybod enw(au)'r perchennog (perchenogion) neu ran-berchennog (ran-berchenogion). Mae angen i ni fod yn siŵr hefyd fod unrhyw berchennog arall yn gwybod eich bod wedi gwneud apêl.**

**RHAID I CHI DICIO PA UN O'R TYSTYSGRIFAU SY'N BERTHNASOL.**

Darllenwch y daflen canllawiau i'r weithdrefn os nad ydych chi'n siŵr.

*Ticiwch **UN** blwch yn unig*

| **TYSTYSGRIF A** *(Os mai chi yw unig berchennog safle cyfan yr apêl, bydd tystysgrif A yn berthnasol)* | ☑ |
|---|---|
| Rwy'n ardystio, ar y diwrnod 21 diwrnod cyn dyddiad yr apêl hon, nad oedd unrhyw un ac eithrio'r apelydd, yn berchennog (gweler y daflen canllawiau i weld diffiniad) ar unrhyw ran o'r tir y mae a wnelo'r apêl ag ef | |

**NEU**

| **TYSTYSGRIF B** | |
|---|---|
| Rwy'n ardystio bod yr apelydd (neu'r asiant) wedi rhoi'r hysbysiad gofynnol (gweler y daflen canllawiau) i bawb arall a oedd, ar y diwrnod 21 diwrnod cyn dyddiad yr apêl hon, yn berchennog (gweler y daflen canllawiau i weld diffiniad) ar unrhyw ran o'r tir y mae a wnelo'r apêl ag ef, fel y rhestrir isod: | |

| **Enw'r Perchennog** | **Dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

***Rhowch gyfeiriad(au) y perchennog ar y dudalen manylion personol***

| **TYSTYSGRIFAU C a D** | ☑ |
|---|---|
| Os nad ydych chi'n gwybod pwy sy'n berchen ar safle cyfan yr apêl neu ran o'r safle, llenwch naill ai Dystysgrif **C** neu Dystysgrif **D** yn Atodiad 1 o'n taflen ganllawiau a'i hatodi wrth y ffurflen apêl. | |

## L. Dogfennau ategol hanfodol

**<u>Rhaid</u> anfon y dogfennau a restrir yn 1–6 isod, gyda'ch ffurflen apêl; rhaid anfon 7-12 hefyd os yw'n briodol. Os na dderbyniwn <u>holl</u> ddogfennau eich apêl erbyn diwedd cyfnod 6 mis yr apêl, ni fyddwn yn delio â hi.**

***Ticiwch y blychau i ddangos pa ddogfennau rydych yn eu hamgáu.*** ☑

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Copi o'r **cais am ganiatâd adeilad rhestredig/ardal gadwraeth** gwreiddiol a anfonwyd at yr ACLl | |
| **2** | Copi o'r **dystysgrif perchenogaeth safle a manylion perchenogaeth** a gyflwynwyd i'r ACLl yn y cam gwneud cais (mae hyn yn rhan o ffurflen gais yr ACLl fel arfer). | |
| **3** | Copi o **hysbysiad penderfyniad yr ACLl** (os yw wedi'i roi). | |
| **4** | **Cynllun safle** (gorau oll os yw'n gopi o fap Arolwg Ordnans ar raddfa nid llai na 10,000) yn dangos lleoliad cyffredinol y datblygiad arfaethedig a'i ffin. Dylai'r cynllun hwn ddangos dwy ffordd a enwir er mwyn cynorthwyo lleoliad safle neu eiddo'r apêl. Dylid ymylu neu arlliwio safle'r cais yn goch a dylid ymylu neu arlliwio unrhyw dir cyffiniol arall y mae'r apelydd yn berchen arno neu'n ei reoli (os oes unrhyw dir) yn las). | |
| **5** | Rhestr (gan nodi rhifau lluniadau) a chopïau o'r holl **gynlluniau, lluniadau a dogfennau** a anfonwyd at yr ACLl fel rhan o'r cais. Dylai'r cynlluniau a'r lluniadau ddangos yr holl ffiniau a marciau lliw a roddwyd ar y rheiny a anfonwyd at yr ACLl. | |
| **6** | Rhestr (gan nodi rhifau lluniadau) a chopïau o unrhyw **gynlluniau, lluniadau a dogfennau ychwanegol** a anfonwyd at yr ACLl ond nad oeddent yn ffurfio rhan o'r cais gwreiddiol (e.e. lluniadau at ddibenion eglurhaol). | |

**Rhaid anfon copïau o'r canlynol hefyd, os yw'n briodol:** ☑

| | | |
|---|---|---|
| **7** | Copi o'r Datganiad Dyluniad a Mynediad (os yw'n ofynnol). | |
| **8** | Cynlluniau, lluniadau neu ddogfennau ychwanegol yn ymwneud â'r cais ond nad yw'r ACLl wedi'u gweld yn flaenorol. Rhifwch nhw'n glir a rhestrwch y rhifau isod: | |
| | | |
| **9** | Unrhyw **ohebiaeth** berthnasol â'r ACLl. | |
| **10** | Os yw'r apêl yn erbyn gwrthodiad neu fethiant yr ACLl i benderfynu ar gais sy'n ymwneud ag **amod**, rhaid i ni gael copi o'r caniatâd gwreiddiol gyda'r amod ynghlwm | |
| **11** | Os yw'r apêl yn erbyn **methiant** yr ACLl i benderfynu ar gais, darparwch gopi o lythyr yr ACLl yn cofrestru eich cais | |

## M. Apeliadau Eraill

| |
|---|
| Os anfonoch apeliadau eraill atom ar gyfer y safle hwn neu safleoedd gerllaw ond nad oes penderfyniad wedi'i wneud yn eu cylch, rhowch fanylion a'n rhifau cyfeirnod ni. |
| |

**Manylion Personol** (ni fydd y rhain *ar gael i'r cyhoedd*)

## 1. Manylion personol yr apelydd

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Rhif Ffôn yn ystod y Dydd | |
| Ffacs | |
| E-bost | |

| | Saesneg | Cymraeg |
|---|---|---|
| **Dewis Iaith** | | |

| | E-bost | Post |
|---|---|---|
| **Mae'n well gen i gyswllt drwy'r** | | |

## 2. MANYLION PERSONOL YR ASIANT (os oes rhai)

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Rhif Ffôn yn ystod y Dydd | |
| Ffacs | |
| E-bost | |

| | Saesneg | Cymraeg |
|---|---|---|
| **Dewis Iaith** | | |

| | E-bost | Post |
|---|---|---|
| **Mae'n well gen i gyswllt drwy'r** | | |

**Llofnodwch isod (Rhaid i ni dderbyn ffurflenni wedi'u llofnodi gyda'r holl ddogfennau ategol o fewn y terfyn amser 6 mis)**

| |
|---|
| Rwy'n cadarnhau fy mod wedi anfon copi o'r ffurflen apêl hon a'r holl ddogfennau perthnasol at yr ACLl (os na wnewch, ni dderbynnir eich Apêl fel arfer) |
| Rwy'n cadarnhau bod pob adran wedi'i llenwi yn llawn, a bod manylion y berchenogaeth yn gywir, hyd y gwn. |
| Rwy'n deall y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a roddais at ddibenion swyddogol mewn cysylltiad â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a bydd manylion yn cynnwys fy enw, y disgrifiad o'r safle a fy natganiad achos yn ymddangos ar-lein. Drwy gyflwyno'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth a ddarparaf gael ei defnyddio yn y modd hwn. |

| | |
|---|---|
| Llofnod: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw (mewn priflythrennau) | | Dyddiad | |

| | |
|---|---|
| Ar ran (os yw'n berthnasol) | |

| **1 COPI atom ni yn:** | **1 COPI at yr ACLl** |
|---|---|
| Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost:pedw.gwaithachos.gov.wales<br><br>Llinell Gymorth: 0300 0604400 | Anfonwch gopi o'r ffurflen apêl at y cyfeiriad yr anfonwyd yr hysbysiad penderfyniad ohono (neu at y cyfeiriad a ddangosir ar unrhyw lythyrau a dderbyniwyd gan yr ACLl).<br><br>Nid oes angen anfon yr holl ddogfennau ategol atynt eto; anfonwch unrhyw ddogfennau ategol na chawsant eu hanfon yn flaenorol fel rhan o'r cais yn unig. |
| **Cadwch gopi i'ch cofnodion chi** | |

**Pan dderbyniwn eich ffurflen apêl, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi a yw eich apêl yn ddilys, pwy sy'n delio â hi a beth sy'n digwydd nesaf.**

Mae'r broses o gasglu ac wedyn prosesu'r data personol a roddwyd gennych ar y ffurflen hon, yn unol â thelerau ein cofrestriad o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein Polisi Diogelu Data ar ein gwefan o dan "Polisi Preifatrwydd" https://gov.wales/welsh-government-privacy-notice